

Lansio ymgyngghoriad ar leoliadau is-orsafoedd ar gyfer prosiect Gwylnt ar y Môr Mona

Cyfle i 'ddweud eich dweud' ar ein cynigion

Mae ein hymgyngghoriad ar is-orsafoedd yn agored rhwng dydd
Llun 26 Medi a dydd Llun 7 Tachwedd

Mae EnBW (Energie Baden-Württemberg AG) a bp yn falch o fod yn arwain y gwaith o ddatblygu prosiectau Morgan a Mona. Bydd y ddau brosiect ynni'r gwylnt ym Môr Iwerddon yn helpu'r Deyrnas Unedig i gyflawni ei huchelgais o gynhyrchu 50GW o bŵer gwylnt ar y môr erbyn 2030.

Yn gynharach eleni, cynhaliwyd cam cyntaf ein hymgyngghoriad cymunedol, gan gyflwyno Mona a'n cynlluniau cynnar. Roeddem wedi rhannu gwybodaeth ac wedi gwahodd eich adborth ar y seilwaith ar y môr ac ar y tir y bydd ei angen arnom i adeiladu a gweithredu'r fferm wynt.

Yn ein hymgyngghoriad cyntaf, fe wnaethom gyflwyno ardal chwilio lle'r oeddem yn ceisio canfod safle is-orsaf newydd. Ers hynny, mae cyfuniad o asesiadau manwl, ymweliadau safle ac arolygon wedi ein galluogi ni i greu rhestr fer o saith lleoliad a allai, yn ein barn ni, fod yn addas ar gyfer adeiladu ein his-orsaf newydd.

Rydym nawr yn lansio ail ymgyngghoriad wedi ei dargedu, sydd wedi ei gynllunio'n benodol i ofyn am eich adborth ar y lleoliadau posibl hyn. Mae'r holl leoliadau ar ein rhestr fer yng nghyffiniau is-orsaf bresennol Bodelwyddan yn Sir Ddinbych.

Bydd gwybodaeth a dealltwriaeth leol yn cael eu cyfuno â'n hasesiadau amgylcheddol parhaus a'n hastudiaethau technegol i'n helpu i gulhau ein ffocws. Bydd un neu ragor o'r lleoliadau sy'n cael eu ffafrio wedyn yn destun ymgyngghoriad pellach yn ystod y misoedd nesaf.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth a chyflwyno eich adborth drwy fynd i'n gwefan: www.morganandmona.com



Gallwch gyflwyno adborth i ni drwy:



Defnyddio gwefan y prosiect:
www.morganandmona.com
neu defnyddiwch y cod QR hwn



Anfon e-bost at:
info@morganandmona.com



Anfon adborth ysgrifenedig i'n cyfeiriad rhadbost:
Freepost MORGAN AND MONA



Ein lleoliadau posibl ar gyfer is-orsafoedd

Rydym wedi nodi saith lleoliad posibl ar gyfer ein his-orsaf newydd. Maent i gyd yng nghyffiniau is-orsaf bresennol y Grid Cenedlaethol ym Modelwyddan.

Ar ôl ei hadeiladu, bydd ein his-orsaf newydd yn cysylltu â'r is-orsaf bresennol hon er mwyn gallu bwydo'r pŵer rydyn ni'n ei gynhyrchu i'r rhwydwaith trawsyrru trydan (sy'n cael ei alw weithiau'n 'grid cenedlaethol').

Nid ydym eto wedi cyrraedd pwynt lle mae gennym gynllun manwl ar gyfer yr is-orsaf, ond fel arfer bydd arnom angen arwynebedd o tua 125,000 m², sy'n cyfateb i tua 12 cae pêl-droed. Byddai'n cynnwys offer trydanol ac wedi'i amgylchynu gan ffens. Fel arfer, gellir sgrinio is-orsafoedd drwy waith tirweddau neu blannu.

Ein blaenoriaeth yw ceisio lleoli'r is-orsaf mewn modd mor sensitif â phosib. Er enghraifft, rydym wedi ystyried pa mor agos yw cartrefi wrth asesu safleoedd posib, yn ogystal â'r effeithiau gwledol posib.


Cysylltu ein his-orsaf newydd

Rydyn ni'n dal i ddewis lle gallwn ni lwybro'r cebl tanddaearol ar y tir a fydd yn cysylltu Mona â'n his-orsaf newydd.

Roedd ein gwaith cynnar wedi nodi nifer o goridorau ceblau posibl – neu lwybrau bras – y gallai ein ceblau o dan y ddaear eu dilyn, ac roedden ni wedi cyflwyno gwybodaeth am y coridorau hyn fel rhan o'n hymgynghoriad cyntaf yn gynharach eleni.

Fel datblygwyr cyfrifol, rydym wedi ymrwmo i ddylunio llwybrau ceblau gan ystyried buddiannau gorau ein cymunedau, felly rydym nawr yn defnyddio'r adborth a gawsom – a chanlyniadau ein hastudiaethau amgylcheddol a thechnegol parhaus – i leihau ein dewisiadau o ran y llwybr sy'n cael ei ffafrio.

Bydd y llwybr hwn wedyn yn destun ymgynghoriad pellach yn ystod y misoedd nesaf. Gallwch weld y deunyddiau a gyhoeddwyd gennym fel rhan o'n hymgynghoriad cyntaf drwy fynd i wefan ein prosiect.



Y dewis mwyaf gorllewinol a hefyd uchder o tua 130m uwchlaw lefel y môr. Mae'r safle posibl i'r de o Barc Cinmel (gyferbyn â'r B5381) ac i'r de o Fryn-y-Pin. Mae'r safle posibl yn cynnwys tir amaethyddol, ac ar hyn o bryd mae modd ei gyrraedd drwy ffordd un lôn o'r B5381. Dyma'r un sydd bellaf i ffwrdd o Is-orsaf Bodelwyddan.

Dewis 6

Wedi ei leoli i'r de orllewin o Is-orsaf bresennol y grid ym Modelwyddan, ac i'r gorllewin o ddewis 1. Mae modd cael mynediad at Ddewis 2 ar hyd lôn gul oddi ar yr B5381. Mae gan y dewis hwn ddrychiad tua 60m uwchlaw lefel y môr. Mae'n cynnwys tir amaethyddol, coed gwasgarog ac ardaloedd o lystyfiant. Mae hefyd agosaf at Is-orsaf Bodelwyddan.

Dewis 2

Y dewis mwyaf dwyreiniol yw'r un sydd i'r de orllewin o Llanelwy ac sy'n hygyrch drwy'r B5381 a darn byr o ffordd un lôn. Mae'r dewis hwn yn gymharol isel, tua 40m uwchben lefel y môr. Mae'r safle'n cynnwys tir amaethyddol ac mae'n cynnwys coridor cwrs dŵr gyda llystyfiant o'i gwmpas.

Dewis 7

Mae wedi ei leoli ar dir amaethyddol i'r gogledd o Afon Elwy ac mae'n uwch na rhai o'r dewisiadau eraill, oddeutu 130m uwchlaw lefel y môr. Ceir mynediad at y dewis hwn ar hyd ffordd un lôn.

Dewis 5

Mae'n goryffwrdd â rhan ganol Dewis 2 ac mae'n hygyrch unwaith eto ar hyd llwybr un lôn o'r B5381. Mae hwn hefyd ar uchder o tua 60m uwchben lefel y môr. Mae Dewis 3 i'r dwyrain o Fferm Hedy ac mae'n cynnwys tir amaethyddol, coed ar wasgar, ardaloedd o lystyfiant a lôn bresennol.

Dewis 3

Y dewis mwyaf deheuol yw'r un i'r gogledd o Fferm Cefn, gyda drychiad o tua 70m uwchlaw lefel y môr. Mae'r dewis hwn yn cynnwys tir amaethyddol ac mae modd ei gyrraedd drwy lwybr un lôn.

Dewis 4

Wedi ei leoli wrth ymyl ffordd un lôn leol, y gellir ei chyrraedd o'r B5381. Mae'r safle posibl hwn wedi ei leoli ar uchder o tua 60m uwchlaw lefel y môr. Mae'n cynnwys tir amaethyddol, llinell uwchben bresennol, coed gwasgareddig a chwrs dŵr.

Dewis 1

Sut byddwn ni'n defnyddio eich adborth?

Byddwn yn dadansoddi'r adborth rydym wedi ei gael i'r ymgynghoriad hwn, ynghyd â chynnal rhagor o asesiadau effaith technegol a defnyddio'r wybodaeth i lywio'r gwaith o ddewis safle a dyluniad parhaus cynllun, gwedd a thirweddau'r is-orsaf.

Ymgysylltu parhaus ac yn y dyfodol


Rydym wedi ymrwmo i ymgysylltu â'r gymuned gyfan ar bob cam o'r prosiect. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid technegol drwy weithgor dethol safle penodol. Rydym hefyd wedi bod yn ymgysylltu â thirfeddianwyr drwy gydol y broses a byddwn yn parhau i wneud hynny wrth i'r prosiect fynd rhagddo.


Bydd sylwadau a gawn o hyn ac unrhyw ymgynghoriad yn y gorffennol ac yn y dyfodol – a'n hymatebion – yn cael eu cynnwys yn ein Hadroddiad Ymgynghori. Bydd yr adroddiad hwn yn rhan o'n cais cynllunio, a elwir yn Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO).


I gael rhagor o wybodaeth am broses gynllunio'r DCO, ewch i www.gov.uk/guidance/guidance-on-procedural-requirements-for-major-infrastructure-projects


Byddwn hefyd yn darparu diweddariadau drwy wefan ein prosiect, felly dewch yn ôl yn rheolaidd i weld sut mae ein cynlluniau'n mynd rhagddynt.


Allwedd:

 Ardal chwilio sgopio – dyma'r sail i'n gwaith datblygu cynnar i ganfod llwybrau ceblau a lleoliadau posibl ar gyfer is-orsaf

 Ardaloedd chwilio coridor ceblau 300m o led – lle gallai ein ceblau tanddaearol gael eu llwybro

 Is-orsaf Bodelwyddan (National Grid)

 Ardal chwilio is-orsaf ar y tir – ardal lle galem leoli is-orsaf newydd



Sut mae cyflwyno eich sylwadau

Gallwch lenwi ffurflen adborth ar ein gwefan – neu adael sylwadau gan ddefnyddio map rhyngweithiol sy'n eich galluogi i gysylltu eich sylwadau â lleoliadau penodol



Defnyddio gwefan y prosiect:
www.morganandmona.com
neu defnyddiwch y cod QR hwn



Anfon e-bost atom:
info@morganandmona.com



Anfon adborth ysgrifenedig atom i'n cyfeiriad rhadbost: **Freeport MORGAN AND MONA**
Does dim angen stamp arnoch



Ffoniwch ni:
I gael rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad hwn neu am ein prosiect, ffoniwch ni am ddim ar **0800 860 6263**

Amserlen ddangosol (adeg cyhoeddi ym mis Mai 2022)

- **2022**
 - **Haf 2022**
Cam cyntaf yr ymgynghoriad ar fferm wynt ar y môr Mona
 - **Hydref 2022**
Gwaith technegol ac amgylcheddol parhaus

Cam cyntaf yr ymgynghoriad ar fferm wynt ar y môr Morgan
 - **Gaeaf 2022 / 2023**
Ail gam yr ymgynghoriad
- **2023 & 2024**
 - **Gaeaf 2023 / 2024**
Ceisiadau a gyflwynir ar gyfer Gorchymyn Cydsyniad Datblygu a thrwyddedau eraill
- **2025**
 - Disgwyli penderfyniad ar y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu gan yr Ysgrifennydd Gwladol
- **2026**
 - Penderfyniad Buddsoddi Terfynol Disgwyliedig
- **2027**
 - Cysylltiad grid cyntaf ar gyfer comisiynu ceblau allforio pŵer ar gyfer is-orsafoedd ar y môr
- **2028**
 - Dyddiad Dechrau Disgwyliedig – Dyddiad Gweithredu Masnachol

Cwrdd â'n tîm



Dyddiad	Amser	Lleoliad
Dydd Gwener 14 Hydref	3pm -7pm	Bodelwyddan Neuadd y Pentref , y Rhyd LL18 5TE
Dydd Sadwrn 15 Hydref	10am -1pm	Bodelwyddan Neuadd y Pentref , y Rhyd LL18 5TE

Digwyddiad ar-lein



Rydyn ni'n cynnal gweminar lle byddwn yn rhannu gwybodaeth am ein proses o lunio rhestr fer o leoliadau posibl ar gyfer is-orsafoedd. Bydd y rhai a fydd yn bresennol hefyd yn gallu gofyn cwestiynau i ni a fydd yn cael eu hateb gan dîm y prosiect. Ewch i wefan ein prosiect i gofrestru ar gyfer y weminar hon www.morganandmona.com

Mercher 12 Hydref 6:30pm-8pm

